# Cofnodion cryno - Pwyllgor y Llywydd

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Y Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023

Amser: 09.11 - 10.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13797

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Shaun McNally, Comisiwn Etholiadol<br>Dame Elan Closs Stephens CBE, Comisiwn Etholiadol<br>Rhydian Thomas, Comisiwn Etholiadol<br>David Moran, Cyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Comisiwn Etholiadol |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Bethan Garwood (Dirprwy Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024/25

2.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o’r Comisiwn Etholiadol i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am gyflwyno eu hamcangyfrif ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 ac amcangyfrif atodol 2023-24.

2.2 Holodd y Pwyllgor gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ar eu hamcangyfrif ariannol ar gyfer 2024-25.

2.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar yr amcangyfrif fel rhan o'r ymgynghoriad sy’n ofynnol o dan baragraff 16A(8)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

2.4 Nododd y Pwyllgor adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar yr etholiadau lleol a gynhaliwyd ym mis Mai 2023 a’i adroddiad ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholwyr.

2.5 Nododd y Pwyllgor y ddau lythyr a gafwyd gan y Comisiwn Etholiadol ynghylch yr ymosodiad seiber a'r Prif Weithredwr.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 4 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2024/25 Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.